

Crynodeb Gwirio Ansawdd
Practis Deintyddol Bistre
Dyddiad y gweithgarwch: 4 Gorffennaf
2022

Dyddiad cyhoeddi: 22 Awst 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Ymgwyrodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Bractis Deintyddol Bistre fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Practis Deintyddol Bistre yn cynnig ystod o wasanaethau deintyddol GIG a phreifat ac mae'n rhan o'r gwasanaethau deintyddol a gynigir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ym mhentref Bistre, Sir y Fflint.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol i sicrhau gweithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig a rheolwr y practis ar 4 Gorffennaf 2022, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r prif lwybrau ymholi canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych chi'n sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut ydych chi'n diwallu anghenion y cleifion Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi cynllunio a rheoli'r amgylchedd gofal i sicrhau ei fod mor ddiogel â phosibl i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys yr asesiadau risg / archwiliadau amgylcheddol mwyaf diweddar.

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Darparodd y rheolwr cofrestredig a rheolwr y practis fanylion am y newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i amgylchedd y practis a oedd yn caniatáu i gleifion gael eu gweld yn ystod pandemig COVID-19. Er mwyn amddiffyn cleifion a staff, dywedwyd wrthym fod y drws i'r practis yn cael ei gadw wedi'i gloi, gan sicrhau mai dim ond yr unigolion sydd ag apwyntiadau wedi'u trefnu ymlaen llaw y gallai fynd i mewn i'r practis. Dywedwyd wrthym fod arwyddion a roddwyd ar ddrws y practis yn hysbysu cleifion o'r mesurau ychwanegol a oedd ar waith i ddiogelu yn erbyn COVID-19.

Yn unol â newidiadau diweddar i ganllawiau a chynghor a gyhoeddwyd gan y bwrdd iechyd lleol, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y gofynnwyd i gleifion fynychu gan wisgo gorchudd wyneb ac y byddent yn cael eu hannog i ddefnyddio hylif diheintio dwylo wrth ddod i mewn i'r practis.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi gosod sgrin blastig glir wrth ddesg y dderbynfa i amddiffyn staff, a gosodwyd nodiadau atgoffa ar draws y practis i annog cleifion i gadw pellter cymdeithasol. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod teganau a chylchgronau wedi'u symud o'r man aros a bod taflenni wedi'u tynnu hefyd.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod lloriau newydd wedi'u gosod yn ddiweddar er mwyn ei gwneud yn haws i'w glanhau a bod cadeiriau newydd y gellir eu glanhau â chadachau wedi'u prynu. Dywedwyd wrthym, er gwaethaf y newidiadau hyn, nad oedd cleifion yn cael eu hannog i ddefnyddio'r ystafell aros a'u bod yn cael eu hannog i fynychu amser eu hapwyntiad yn unig er mwyn lleihau nifer yr ymwelwyr drwy'r practis.

Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig a rheolwr y practis am y dulliau a ddefnyddir i hysbysu cleifion am y mesurau diogelwch sy'n ymwneud â COVID-19, cyn mynychu'r practis. Dywedwyd wrthym y byddai staff yn ffonio cleifion cyn eu hapwyntiadau i'w brysbennu ac yn egluro'r gweithdrefnau i'w dilyn. Roedd hyn yn caniatáu'r claf i ofyn cwestiynau, pe bai'n ansicr, cyn cyrraedd y practis.

Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig ddisgrifio'r cyfleusterau sydd ar gael i sicrhau hygyrchedd i'r practis i'r rhai ag anableddau. Cawsom wybod bod system dolen glyw i gynorthwyo'r cleifion hynny a allai fod yn drwm eu clyw. Yn ogystal, roedd gan y practis ddefnydd o wasanaeth cyfieithu dros y ffôn a ddarperir gan y bwrdd iechyd lleol ar gyfer defnydd cleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. At hynny, fe'n hysbyswyd bod gan y practis ramp symudadwy i gynorthwyo'r cleifion hynny ag anawsterau hygyrchedd i gael mynediad i'r practis.

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael eu galluogi i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg pe dymument. Roedd y rheolwr cofrestredig yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg i lefel gymedrol ac roedd llawer o'r dogfennau a oedd ar gael yn y practis yn ddwyieithog. Roedd hyn yn cynnwys cyfarwyddiadau cyn ac ar ôl llawdriniaeth, hanes meddygol, ac arolygon boddhad cleifion.

Cawsom dystiolaeth o asesiad risg cynhwysfawr ar gyfer y practis mewn perthynas â COVID-19 a'r mesurau rheoli sy'n ofynnol i liniaru'r risgiau a berir gan y feirws. Yn ogystal, cawsom asesiad risg practis ar gyfer y practis ei hun. Nododd hwn y rhagofalon angenrheidiol i liniaru'r risgiau o weithio yn y practis deintyddol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor llwyddiannus mae'n rheoli'r risg o heintiau er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys:

- Copi o'r archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 mwyaf diweddar a'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella
- Polisiâu rheoli heintiau cyffredinol a pholisiâu penodol ynghylch COVID-19
- Yr asesiadau risg / archwiliadau rheoli heintiau mwyaf diweddar
- Amserlenni glanhau

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig a rheolwr y practis fod prosesau ar waith i ddiogelu cleifion a staff yn ystod gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol¹. Roedd y broses hon yn dilyn y canllawiau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Deintyddol Cymru. Hysbyswyd yr holl staff ynghylch y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Prif Swyddog Deintyddol a pholisiâu a gweithdrefnau cysylltiedig y practis drwy ap negeseuon ar ffonau symudol. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau i'r canllawiau yn cael eu hanfon ar

¹ Diffinnir gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol fel unrhyw weithdrefn feddygol neu ofal claf sy'n arwain at gynhyrchu gronnau yn yr awyr - a elwir yn aerosolau.

unwaith at yr holl staff drwy'r ap hwn a'u trafod ymhellach yn ystod cyfarfodydd staff fel y bo'n briodol. Yn ogystal, byddai'r holl ganllawiau a pholisïau'n cael eu hargraffu a disgwylir i staff eu darllen a'u llofnodi i gydnabod unrhyw newidiadau.

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y practis, nes yn ddiweddar, wedi dyrannu ystafelloedd triniaeth penodol i ddarparu gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol a gweithdrefnau nad ydynt yn cynhyrchu aerosol. Gwelsom dystiolaeth a ddarparwyd yng Ngweithdrefn Weithredu Safonol y practis y byddai cleifion yn cael eu trin naill ai ar lwybr anadlol neu lwybr nad yw'n anadlol yn dibynnu ar eu symptomau a'u statws COVID-19 i leihau'r risg o ronynnau yn yr awyr (aerosolau).

Dyweddwyd wrthym fod yr holl offer diangen wedi'u clirio o'r ystafelloedd triniaeth a dim ond yr eitemau hynny oedd eu hangen ar gyfer triniaeth benodol fyddai'n cael eu cadw'n hygrych.

Dyweddodd rheolwr cofrestredig y practis wrthym fod unedau echdynnu aer wedi'u gosod yn yr ystafelloedd triniaeth, a oedd yn galluogi'r practis i weithredu gyda'r cyfnod segur lleiaf o ddeg munud yn dilyn gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol. Dywedodd Gweithdrefn Weithredu Safonol y practis y byddai amser ydynt yn cael ei ddefnyddio i nodi pryd roedd ystafell yn ddiogel i fynd i mewn iddi ar ddiwedd y cyfnod hwn.

Gwnaethom gadarnhau'r broses o wirio nad oedd cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn dangos symptomau COVID-19 gyda'r rheolwr cofrestredig. Byddai unrhyw gleifion a adroddai symptomau COVID-19 yn cael eu hannog i beidio â mynychu. Byddai cleifion sy'n dal angen apwyntiad yn cael eu gweld ar ddiwedd y dydd. Byddai staff sy'n trin cleifion ag amheuaeth o COVID-19 yn gwisgo cyfarpar diogelu personol llawn, gan gynnwys masgiau darn wyneb hidlo (FFP3)², gynau, ffedogau, ac amddiffyniad llygaid. Byddai gofyn iddynt dalu am driniaeth dros y ffôn i leihau'r amser a dreulir ganddynt yn y practis ac ni fyddent yn cael defnyddio ardal yr ystafell aros.

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig a rheolwr y practis wrthym fod pob aelod o staff sy'n ymgymryd â gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol wedi cael prawf ffit iawn ar gyfer masgiau FFP3 a'u bod wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio cyfarpar diogelu personol uwch, gan gynnwys y dull cywir o wisgo a diosg³. Cyflawnwyd hyn trwy gwrs hyfforddi ar-lein a sesiynau hyfforddi mewnol.

Gwnaethom ofyn i rheolwr y practis ddisgrifio ei brofiad o gyrchu cyfarpar diogelu personol yn ystod y pandemig. Dywedwyd wrthym y byddai rheolwr y practis yn cynnal gwiriad stoc yn rheolaidd ac y byddai cyfarpar diogelu personol yn cael ei archebu yn ôl yr angen. Dywedwyd wrthym nad oedd y practis wedi cael unrhyw anawsterau o ran cael cyfarpar diogelu personol gan y bwrdd iechyd lleol a'i fod bob amser wedi cael cyflenwad digonol o eitemau cyfarpar diogelu personol.

² Cynlluniwyd masgiau FFP3 i ddiogelu'r sawl sy'n eu gwisgo rhag anadlu gronynnau bychain yn yr awyr a allai gynnwys feirysau.

³ Mae wisgo a diosg yn cyfeirio at wisgo a thynnu cyfarpar diogelu personol uwch.

Gwelsom dystiolaeth o bolisi cyfredol ar gyfer COVID-19 a oedd wedi'i ddyddio ac yn unol â'r canllawiau diweddaraf ac yr oedd fersiynau ohono wedi eu rheoli. Cawsom hefyd restrau gwirio dyddiol ar gyfer offer dihalogi a sterileiddio ac amserlenni glanhau ar gyfer pob ystafell driniaeth a oedd yn ystyried y mesurau cynyddol oherwydd pandemig COVID-19. Yn ogystal, cawsom archwiliad o reoli heintiau a gwblhawyd yn ddiweddar ac a oedd yn cydymffurfio, a thystiolaeth o bolisi glanhau â llaw a oedd yn dangos y broses i'w dilyn i sicrhau bod offer yn cael eu dihalogi'n briodol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynglŷn â'r ffordd y maent wedi addasu eu gwasanaeth mewn ymateb i effaith COVID-19. Gwnaethom archwilio p'un a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac a ydynt wedi'u hyfforddi'n briodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys:

- Polisiâu/gweithdrefnau cydsyniad gwybodus
- Cynlluniau parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff
- Aseidiadau risg a gynhaliwyd mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, yr amgylchedd, ac iechyd a diogelwch staff

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd y practis ar gau yn ystod y pandemig. Yn lle hynny, rhannwyd staff yn dri thîm a buont yn gweithio ar ddiwrnodau penodol i sicrhau bod cleifion yn cael eu cefnogi a'u darparu â chymorth a chyngor. Roedd hyn hefyd yn sicrhau bod staff yn cael eu cadw'n ddiogel, a bod y practis yn parhau i fod yn weithredol.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio meddalwedd galw fideo i weld cleifion yn rhithwir.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y practis wedi profi trosiant uchel iawn o staff drwy gydol y pandemig, gyda'r rhan fwyaf o'r staff wedi dechrau cyflogaeth yn ddiweddar neu yn ystod y pandemig. Dywedwyd wrthym fod yr holl staff wedi cynnal aseidiadau risg COVID-19 i'w cadw'n ddiogel yn y gwaith. Dywedwyd wrth staff sy'n arddangos symptomau COVID-19 i aros gartref nes eu bod wedi derbyn canlyniad negatif i brofion llif unffordd⁴ yn unol â

⁴ Mae prawf llif unffordd, sef biobrawf a elwir hefyd yn ddyfais llif unffordd, biobrawf imiwnochromatograffig llif unffordd, neu brawf cyflym, yn ddyfais syml a fwriedir i ganfod presenoldeb sylwedd targed (yn yr achos hwn, presenoldeb SARS-CoV-2) mewn sampl hylif heb fod angen offer arbenigol a

chanllawiau'r llywodraeth.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn cynnal archwiliadau ym maes radiograffeg a chadw cofnodion a rhoddwyd enghreifftiau o'r ddau a oedd yn dangos canlyniadau da.

Gwelsom dystiolaeth o ddatganiad o ddiben⁵ a ddiwygiwyd yn ddiweddar ac a oedd yn cydymffurfio â'r rheoliadau, yn ogystal â thaflen wybodaeth gynhwysfawr i gleifion.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Gwelsom dystiolaeth o daenlen hyfforddiant gorfodol ar gyfer yr holl staff. Roedd hon yn nodi nad oedd rhai aelodau o staff yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion ar gyfer hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys un deintydd a oedd wedi dechrau cyflogaeth yn y practis deintyddol ar ddechrau 2022. Nid oedd yr aelod hwn o staff wedi cael hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed, diogelu plant, neu Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017⁶ o fewn y pum mlynedd diwethaf. Yn ogystal, canfuom mai dim ond un aelod o staff oedd wedi dilyn hyfforddiant diweddar mewn diogelwch tân.

Mae'n bwysig bod y rheolwr cofrestredig yn ymwybodol o anghenion hyfforddi ei staff er mwyn sicrhau gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Yn unol â hynny, rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn gyfarwydd â'r gofynion hyfforddi gorfodol diweddaraf (gan gynnwys hyfforddiant mewn diogelwch tân) a rhaid iddo sicrhau bod ganddo system ar waith i nodi staff y gallai eu hyfforddiant fod wedi dod i ben neu a allai fod ag angen hyfforddi.

Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig a rheolwr y practis ddisgrifio'r broses ar gyfer gwirio'r cyffuriau a'r offer a ddefnyddir mewn achos brys. Dywedwyd wrthym y byddai cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu gwirio'n fisol i wirio am ddyddiadau dod i ben. Byddai diffibriliwr⁷ y practis a'r ocsigen a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu gwirio bob dydd. Mae'n ofyniad gan ganllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)⁸ bod cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu gwirio bob wythnos i sicrhau nifer a chywirdeb offer a pheynnau cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y cyffuriau a'r offer a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu gwirio'n wythnosol a bod cofnod yn cael ei gadw.

chostus.

⁵ Mae datganiad o ddiben y practis yn ddogfen sy'n ofynnol fel rhan o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) sy'n nodi'r trefniadau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis deintyddol preifat ynghyd â manylion y staff a sut i wneud cwyn.

⁶ Mae Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 yn darparu mesurau diogelu i unigolion sy'n dod i gysylltiad ag ymbelydredd Ïoneiddio yn sgil offer meddygol at ddibenion delweddu, triniaeth neu ymchwil.

⁷ Dyfais yw diffibriliwr sy'n rhoi sioc drydanol egni uchel i galon rhywun sydd ag ataliad y galon.

⁸ Mae'r Cyngor Dadebru (DU) yn elusen gofal iechyd sy'n canolbwyntio ar addysg a hyfforddiant dadebru ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Hwn hefyd yw corff y DU sy'n gyfrifol am osod safonau canolog ar gyfer dadebru cardio-pwlmonaidd a disgyblaethau cysylltiedig.

Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig a rheolwr y practis ddisgrifio'r trefniadau i sicrhau bod oedolion a phlant sy'n agored i niwed ac mewn perygl yn cael eu diogelu. Dywedwyd wrthym mai'r rheolwr cofrestredig oedd yr arweinydd diogelu ar gyfer y practis. Ar adeg y gwiriad ansawdd, roedd yr arweinydd diogelu wedi cael hyfforddiant hyd at Lefel 2. Er mwyn cyflawni'r rôl hon a'r cyfrifoldeb hwn yn briodol, cynghorir yn gryf bod yr arweinydd diogelu ar gyfer practis deintyddol yn cael ei hyfforddi hyd at Lefel 3, yn unol â gofynion y Coleg Nyrsio Brenhinol a chyngor a ddarperir gan Gymdeithas Ddeintyddol Prydain.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau ei fod wedi'i hyfforddi'n briodol i gyflawni rôl yr arweinydd diogelu yn unol â'r canllawiau ar gyfer gofal deintyddol sylfaenol.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth sy'n ofynnol yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd yn cael ei darparu i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Cynllun gwella ar unwaith

Lleoliad: Practis Deintyddol Bistre

Ward/Adran/Gwasanaeth: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad y gweithgarwch: 4 Gorffennaf 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd angen unrhyw welliannau ar unwaith.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad B: Cynllun gwella

Lleoliad:	Practis Deintyddol Bistre
Ward/Adran/Gwasanaeth (dilëer fel y bo'n berthnasol):	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Dyddiad y gweithgarwch:	4 Gorffennaf 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno'r fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Cyfeirnod	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol: <ul style="list-style-type: none">Bod yr holl staff sy'n gweithio i'r practis deintyddol preifat yn gyfarwydd â'r gofynion hyfforddiant gorfodol diweddarafBod system effeithiol ar waith i nodi staff y gallai eu hyfforddiant fod wedi dod i ben	7.1 Y gweithlu; Rheoliad 17 (3a-b) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Byddwn yn sicrhau bod yr holl gyrsiau gofynnol yn cael eu harchebu erbyn y dyddiad nesaf sydd ar gael. Polisi ar waith bod pob gweithiwr newydd ym Mistre yn dangos ei gofnod datblygiad proffesiynol parhaus cyn dechrau gweithio.	Marie Cooper Marie Cooper	Erbyn diwedd 2022, oherwydd argaeledd cyfyngedig y cyrsiau gofynnol.
2	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau	2.1 Rheoli risg a	Gwneud cwrs swyddog tân.	Phillip Griffiths	4 wythnos

	bod yr holl staff wedi'u hyfforddi'n briodol mewn diogelwch tân a bod hwn yn cael ei adnewyddu'n flynyddol.	hybu iechyd a diogelwch; Rheoliad 22(4c) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Pob aelod o staff i wneud hyfforddiant ymwybyddiaeth tân (yn flynyddol). Ymarferion tân blynyddol.	Marie Cooper	4 wythnos
3	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y cyffuriau a'r offer a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu gwirio'n wythnosol a bod cofnod yn cael ei gadw.	2.6 Rheoli meddyginiaethau; Rheoliad 31(3b) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Cynnal rhestr wirio wythnosol ar gyfer cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys.	Marie Cooper	Ar unwaith
4	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau ei fod wedi'i hyfforddi'n briodol i gyflawni rôl yr arweinydd diogelu yn unol â'r canllawiau ar gyfer gofal deintyddol sylfaenol.	2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl; Rheoliad 14 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Gwirio â Chymdeithas Ddeintyddol Prydain y gofynion ar gyfer lleoliad sy'n bractis cyffredinol bach. Pan gafodd eu gwirio, dywedwyd y gallai lefel dau fod yn briodol ar gyfer practis cyffredinol bach. Byddwn yn ymchwilio i hyfforddiant Lefel 3 yn y dyfodol.	Phillip Griffiths	3 mis

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw: Dyddiad:
Phillip 25/07/2022
Griffiths